Pwmp Bron Carum

- Cyfarwyddiadau Hyfforddi

ARDO
Your Professional Way to Care



- Gellir addasu gwactod a chylchoedd, yn annibynnol ar ei gilydd, yn y modd symbylu a'r modd mynegi ill dau
- Gellir gwneud newid i'r modd tirion unrhyw amser trwy gyffwrdd â botwm
- Mae lliwiau cefndirol y sgrîn LCD yn newid i wahaniaethu rhwng y modd symbylu, a arddangosir mewn **oren** a'r modd mynegi mewn **gwyrdd.**
- Cynllunir y rhaglen sensitif yn arbennig ar gyfer mamau â thethau poenus neu sensitif er mwyn iddynt bympio'n uniongyrchol heb ysgogi
- Mae dau silindr annibynnol yn sicrhau pympio dwbl heb golli sugnad

Data Technegol			
Modd symbylu	Gwactod 30 -150mbar	Cylchoedd 72-120 y munud	Lefelau Dechrau 60mbar/90 cylch y munud
Modd Mynegi	Gwactod 30 -330mbar	Cylchoedd 30-60 y munud	Lefelau Dechrau Gwactod Symbylu +30mbar/45 cylch
Rhaglen Sensitif			Lefelau Dechrau 30mbar/30 cylch y munud
Foltedd Mewnbwn	100-230 VAC, 50-60 Hz		
Pwysau	3 kg (3.6kg) gyda batri		

Mae ARDO'n cydymffurfio â Chod WHO

Ardo medical Ltd. T +44 (0)1823 336362 F +44 (0) 1823 336 364
info@ardomedical.co.uk **www.ardomedical.co.uk**

Bisphenol A free!
Individual Phases

Pwmp Bron Carum

- Cyfarwyddiadau Hyfforddi

ARDO
Your Professional Way to Care

Mynegi gyda'r modd symbylu

Trowch yr uned ymlaen trwy wasgu'r botwm ymlaen/i ffwrdd. Mae'r pwmp bron yn arddangos neges o groeso am 2 eiliad.



Mae gan yr arddangosfa LCD gefndir oren yn dangos y modd symbylu ac arddangosir yr eicon defnyn bach.

Mae'r pwmp yn dechrau'n awtomatig yn y modd symbylu ar 60 mbar a 90 cylch y munud, mae'r amserydd yn dechrau.



Gellir addasu'r gwactod, un lefel ar y tro, trwy wasgu ▲▼ tro ar ôl tro neu drwy ddal y botwm ▲▼ i lawr – isafswm o 30mbar/uchafswm o 150mbar

Gellir addasu amlder y cylch, un lefel ar y tro, trwy wasgu ▲▼ tro ar ôl tro neu drwy ddal y botwm ▲▼ i lawr – isafswm o 72/uchafswm o 120 cylch y munud.

Mae'r pwmp yn newid i'r modd mynegi'n awtomatig ar ôl dau funud.

NB gwasgwch y botwm defnyn unwaith i ddychwelyd i'r modd symbylu.



Mae'r LCD yn arddangos y cefndir gwyrdd ar gyfer y modd mynegi ac arddangosir yr eicon defnyn mwy.

Gosodir y pwmp bron ar wactod symbylu + 30mbar ac wedi'i leihau i 45 cylch y munud. Dangosir y lefelau ar y siartiau bar i'r dde ac i'r chwith o'r sgrîn.

Gellir addasu'r gwactod a'r cylch, un lefel ar y tro, trwy wasgu ▲▼ tro ar ôl tro neu drwy ddal y botwm ▲▼ i lawr.

Isafswm gwactod 30mbar/uchafswm 330mbar. Isafswm cylchoedd 30/ uchafswm 60 cylch y munud.

Gwasgwch y botwm pan ydych wedi gorffen.

Gosodiad Sensitif

Trowch yr uned ymlaen trwy wasgu'r botwm ymlaen/i ffwrdd. Mae'r pwmp bron yn arddangos neges o groeso am 2 eiliad.

Ar unwaith gwasgwch y botwm defnyn ac mae'r peiriant yn newid i'r modd sensitif.



Mae'r LCD yn arddangos y cefndir gwyrdd ar gyfer y modd mynegi ac arddangosir yr eicon defnyn mwy.

Gosodir y gwactod ar 30mbar a gosodir y cylch ar 30 cylch y munud, sy'n darparu gosodiad tirion iawn i ddechrau, mae hyn yn gwbl addasadwy. Dangosir y lefelau ar y siartiau bar i'r dde ac i'r chwith o'r sgrîn.

Ailadrodd y modd symbylu

Gwasgwch y botwm defnyn.



Mae gan yr arddangosfa LCD gefndir oren yn dangos y modd symbylu ac arddangosir yr eicon defnyn bach.

Mae'r pwmp yn dechrau yn y modd symbylu ar 60 mbar a 90 cylch y munud, mae'r amserydd yn dechrau, yna mae'n newid i'r modd mynegi'n awtomatig ar ôl dau funud.

Gweithredu'r amserydd



I stopio'r amserydd gwasgwch y botwm pan yw'r pwmp bron yn rhedeg. Bydd yr amserydd yn aros yn anweithredol tan ei fod yn cael ei ailddechrau trwy wasgu'r botwm eto. Gellir troi'r amserydd ymlaen ac i ffwrdd yn y modd symbylu neu'r modd mynegi.

Botwm y golau cefn

Gwasgwch y botwm unwaith i leihau dwysedd y golau cefn. Gellir troi'r swyddogaeth gostwng ymlaen ac i ffwrdd fel bo angen.

Mae ARDO'n cydymffurfio â Chod WHO

Ardo medical Ltd. T +44 (0)1823 336362 F +44 (0) 1823 336 364
info@ardomedical.co.uk **www.ardomedical.co.uk**

Bisphenol A free!